# MANIFFESTO ETHOLIAD SENEDD

Gaeaf 2025




SURFERS AGAINST SEWAGE

# EIN GWELEDIGAETH




Rydym eisiau Cymru lle gall pob person syrffio, nofio, neu badlo heb ofni mynd yn sâl. Rydym eisiau i afonydd, llynnoedd ac arfordiroedd byd-enwog Cymru gael eu gwarchod rhag llygredd a bod yn lleoedd lle gall pobl a natur ffynnu am genedlaethau i ddod.

Ond mae degawdau o fethiannau rheoleiddio a thanfuddsoddi'n golygu fod ein moroedd a'n hafonydd yn cael eu llygru gan ollyngiadau carthffosiaeth heb eu trin, gwastraff plastig, a'r cemegau niweidiol a ddaw yn eu sgil.

Mae'n storm berffaith o lygredd nad oes unrhyw system fonitro yn ei olrhain yn ddigonol ac nad oes unrhyw reoleiddiwr yn ei atal yn effeithiol. Ac mae'n gwneud defnyddwyr dŵr yn sâl ac yn tagu ein dyfroedd gwyllt.

Yn 2026, bydd Cymru yn ethol Senedd newydd, estynedig sy'n cyflwyno cyfle hanesyddol am newid. Mae gan Lywodraeth nesaf Cymru'r grym a'r mandad i gyflawni ein gweledigaeth o ddyfroedd heb lygredd. Gallant wneud hynny drwy fabwysiadu'r cynllun hwn i ddod â llygredd yn nyfroedd Cymru i ben, ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.



# EIN GOFYNION

Ein camau gweithredu blaenoriaeth i fynd i'r afael â llygredd plastig gwenwynig a charthffosiaeth yn nyfroedd Cymru:









# AMDDIFFYN IECHYD Y CYHOEDD




Mae chwaraeon dŵr yn dod yn weithgaredd awyr agored mwyaf poblogaidd yng Nghymru, ond mae'r lleoedd poblogaidd lle rydym yn syrffio, nofio a phadlo yn cael eu llygru'n rheolaidd gan lygredd carthffosiaeth, cemegol ac amaethyddol.[1-3]

Yn 2024 yn unig, derbyniodd Surfers Against Sewage 260 adroddiad o bobl yn mynd yn wael oherwydd dŵr llygredig yn ystod gweithgareddau hamdden yn nalgylch Dŵr Cymru.[4] Current water quality testing programs fail to protect public health. Mae rhaglenni profi dŵr cyfredol yn methu â gwarchod iechyd y cyhoedd.

Dim ond mewn 112 o leoliadau Dyfroedd Ymdrochi swyddogol yng Nghymru y caiff y dŵr ei brofi,[5] a dim ond ychydig o weithiau rhwng y 15fed o Fai a'r 30ain o Fedi. Wrth ddewis mannau newydd ar gyfer profi, dim ond nofwyr sy'n cael eu cyfrif fel defnyddwyr dŵr, sy'n golygu nad yw mannau lle mae pobl yn syrffio, caiacio, padl-fyrddio a mwy yn cael eu profi o gwbl. Yn ogystal, dim ond dau o lygryddion mae'r profi yn ei gwmpasu, E. *coli* ac *Enterococci*, gan anwybyddu bygythiadau sy'n dod i'r amlwg o'r gymysgedd gemegol wenwynig o lygryddion gan gynnwys cemegau "am byth" fel PFAS, bacteria sy'n gwrthsefyll gwrthfiotigau, a microplastigion. Mae angen polisïau arnom sy'n amddiffyn defnyddwyr dŵr lle bynnag, pryd bynnag, a sut bynnag y maent yn defnyddio'r dŵr.

## RHAID I LYWODRAETH NESAF CYMRU:

- Gosod targedau sy'n rhwymo'n gyfreithiol i roi terfyn ar ollyngiadau carthion heb eu trin sy'n effeithio ar ddyfroedd ymdrochi a dyfroedd hamdden poblogaidd erbyn 2030.
- Cyflwyno rhaglen profi ansawdd dŵr o'r radd flaenaf sy'n monitro llygryddion sy'n dod i'r amlwg ac yn amddiffyn defnyddwyr dŵr lle bynnag, pryd bynnag a sut bynnag y maent yn defnyddio'r dŵr.

# TRAWSNEWID SYSTEM DDŴR CYMRU




Rhyddhaodd Cwmnïau Dŵr yng Nghymru garthffosiaeth i afonydd, llynnoedd a moroedd am bron i filiwn o oriau yn 2024.[6] Dyma ganlyniad methiant trychinebus y system a'r rheoleiddwyr a gynlluniwyd i'w goruchwylio.

Mae rheoleiddio economaidd a gynlluniwyd i amddiffyn proffidwyr yn hytrach nag iechyd y cyhoedd wedi arwain at gwsmeriaid Cymru yn gorfod talu'r pris. Cwsmeriaid yng Nghymru sydd â'r ail filiau dŵr uchaf yn y DU. Er gwaethaf ei statws dielw, mae 41% o refeniw Dŵr Cymru, gan gynnwys biliau cwsmeriaid, yn cael ei ddefnyddio i ad-dalu dyled.[7]

Mae'r rheoleiddiwr amgylcheddol sydd â diffyg arian ac adnoddau – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) – hefyd wedi methu â mynd i'r afael â llygredd carthffosiaeth. Yn hytrach na gwella gorfodaeth, mae CNC wedi cyhoeddi cynlluniau newydd i fabwysiadau "goddefgarwch uwch o risg" wrth ymchwilio i ddigwyddiadau llygredd. Mae gweithredoedd o'r fath, ynghyd â blynyddoedd o danfuddsoddi, wedi arwain pwyllgor yn y Senedd i ddod i'r casgliad nad oes gan CNC y cyllid sydd ei angen i ddwyn llygrwyr i gyfrif.[8]

I ddod â'r sgandal carthffosiaeth i ben, mae Cymru angen cwmnïau dŵr sy'n rhoi iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn gyntaf, a rheoleiddiwr sydd wedi'i ariannu'n ddigonol sydd â'r gallu, y pŵer a'r gefnogaeth wleidyddol i orfodi'r gyfraith a dwyn llygrwyr i gyfrif.

## RHAID I LYWODRAETH NESAF CYMRU:

- Drawsnewid Cyfoeth Naturiol Cymru yn reoleiddiwr llym, annibynnol sydd â'r adnoddau a'r pŵer gorfodi i warchod iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.
- Canolbwyntio rheoleiddio economaidd ar fudd i'r cyhoedd gan sicrhau bod arian cwsmeriaid yn cael ei ddefnyddio i gyflawni gwelliannau i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.
- Sicrhau bod cwmnïau dŵr Cymru wedi'u strwythuro gyda ffocws ar ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

# LLEIHAU CYNHYRCHU PLASTIG



# A CHREU ECONOMI GYLCHOL




Mae'r diwydiant plastig yn cynhyrchu dros 450 miliwn tunnell o blastig yn flynyddol. Mae 99% o'r plastig hwn wedi'i wneud o danwydd ffosil ac mae dwy ran o dair yn gynhyrchion byrhoedlog a ddefnyddir ychydig iawn o weithiau cyn dod yn wastraff.[9] Heb gamau beiddgar, mae disgwyl i gynhyrchiant plastig dreblu erbyn 2060.[10]

Mae'r plastig hwn yn llygru ein harfordiroedd a glannau ein hafonydd. Cofnododd glanhawyr traethau gynnydd o 4% yn swm y llygredd plastig a geir ar draethau Cymru yn 2024 o'i gymharu â 2023.[11]

Mae microplastigion hefyd wedi'u canfod ym mhob rhan o'r corff dynol erbyn hyn, ac nid yw effaith y plastigion hyn a'r cemegau gwenwynig sydd ynddynt ar iechyd pobl yn gwbl hysbys eto.[12]

Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad pan ddaw i fynd i'r afael â llygredd plastig - gyda'r ail gyfraddau ailgylchu uchaf yn fyd-eang, cyflwyno'r ffi bagiau plastig arloesol ac wedi ymrwymo i bolisïau economi gylchol, megis Cynllun Dychwelyd Ernes sy'n arwain y byd ac sy'n cynnwys gwydr.[13] Fodd bynnag, ni allwn ailgylchu'n ffordd allan o'r broblem. Heb leihau plastig yn llygad y ffynnon, bydd llygru yn parhau i ddifetha arfordiroedd a dyfrffyrdd Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## RHAID I LYWODRAETH NESAF CYMRU:

- Gosod targedau cenedlaethol sy'n gyfreithiol rwymol i leihau cynhyrchu plastig.
- Creu economi gylchol drwy osod targedau ailddefnyddio sy'n gyfreithiol rwymol, gweithredu Cynllun Dychwelyd Ernes cynhwysfawr sy'n arwain y byd, a chynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig sy'n dal cynhyrchwyr yn gwbl atebol am bob math o lygredd plastig.
- Gwahardd cemegau peryglus mewn plastigau.
- Gwahardd allforio gwastraff a sicrhau cyfleoedd pontio teg i weithwyr yn y diwydiant plastigau.



# CYFEIRIADAU


1 Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif: Adroddiad Cyflwr y Genedl 2023 - Data Chwaraeon benodol. Chwaraeon Cymru (2023). Ar gael o: https://www.sport.wales/research-and-insight/sport-active-lifestyles-state-of-the-nation-report/nsw-2022-23/sport-specific-data/

2 Ansawdd dŵr ymdrochi yng Nghymru. Ymchwil y Senedd (2023). Ar gael o: https://research.senedd.wales/research-articles/bathing-water-quality-in-wales/

3 Rivers at Risk Report. Campaign for National Parks (2025). Ar gael o: https://www.cnp.org.uk/wp-content/uploads/2025/09/RiverAtRisk_Report_2025_FINAL.pdf

4 Surfers Against Sewage - Data HQ Sickness Facts and Figures (2025). Ar gael o: https://datahq.sas.org.uk/sickness-data-hq/sickness-facts-and-figures/

5 Bathing Water Quality report. Natural Resources Wales (2025). Ar gael o: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-quality/bathing-water-quality/?lang=cy

6 Sewage leaks catastrophic, say campaigners. BBC News (2025). Ar gael o: https://www.bbc.co.uk/news/articles/c24qze5pmqro

7 Leaking money: the finance costs of privatised water and regulation in England and Wales: Scottish public ownership shows potential savings. Hall et al. (2025). Ar gael o: https://gala.gre.ac.uk/id/eprint/50096/7/50096%20HALL_Leaking_Money_The_Finance_Costs_Of_Privatised_Water_And_Regulation_In_England_And_Wales_%28WORKING%20PAPER%29_2025.pdf

8 'Pryder difrifol' ynghylch cynllun Cyfoeth Naturiol Cymru i ymateb i lai o ddigwyddiadau llygredd. Ymchwil y Senedd (2025). Ar gael o: https://senedd.wales/senedd-now/news/grave-concern-at-natural-resources-wales-plan-to-reduce-responses-to-pollution-incidents/

9 Global Plastics Outlook. OECD (2025). Ar gael o: https://www.oecd.org/en/publications/global-plastics-outlook_de747aef-en.html#:~:text=Globally%2C%20the%20annual%20production%20of,or%20leaked%20into%20the%20environment

10 Policy Scenarios to 2060. OECD (2022). Ar gael o: https://www.oecd.org/en/about/news/press-releases/2022/06/global-plastic-waste-set-to-almost-triple-by-2060.html

11 State of our Beaches report. Marine Conservation Society (2024). Ar gael o: https://s3.eu-west-1.amazonaws.com/media.mcsuk.org/documents/State_of_our_Beaches_2024_report.pdf

12 How do Microplastics in Our Body Effect Our Health? BBC Future (2025). Ar gael o: https://www.bbc.co.uk/future/article/20250723-how-do-the-microplastics-in-our-bodies-affect-our-health

13 O Ailgylchu i Ailddefnyddio: Manteisio ar y Cyfle Cylchol i Gymru. Sefydliad Materion Cymreig (2025). Ar gael o: https://www.iwa.wales/agenda/2025/07/from-recycling-to-reuse-seizing-the-circular-opportunity-for-wales/

#END SEWAGE POLLUTION

THE PEOPLE VS. PLASTIC

SURFERS AGAINST SEWAGE®

info@sas.org.uk • 01872 553 001

Surfers Against Sewage, Unit 2, Wheal Kitty Workshops, St Agnes, Cornwall, TR5 0RD.

Company registered in England & Wales no. 2920815. Registered Charity in England & Wales no. 1145877